# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)<br>Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (ar gyfer eitemau 5,6 a 7)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (MP)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Gwasanaeth - Tai Cymunedol (LlW) (ar gyfer eitem 3)<br>Prif Archwilydd (NRW)<br>Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Alun Roberts, Mrs Margaret M. Roberts, Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg ac Is-Gadeirydd), Mr Alan Hughes (SAC), Mr Chris Tidswell (CIPFA) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Mr Ian Howse (Partner Ymgysylltu - Deloitte) (ar gyfer eitem 4), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Uwch Archwilydd (JR), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes. (GM) |

---

Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd, etholwyd Mr Dilwyn Evans, Aelod Lleyg yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unig.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Richard Griffiths ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 3 ar y rhaglen ar y sail ei fod yn perthyn i swyddog yn y Gwasanaeth Tai.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf, 2019, a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

### 3 MATER YN CODI O'R COFNODION - DIWEDDARIAD AR BROFFILIO TENANTIAID

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn darparu gwybodaeth am waith y Gwasanaeth Tai Cymunedol mewn perthynas â phroffilio tenantiaid. Cyflwynwyd y wybodaeth yn dilyn cyflwyno adroddiad archwilio mewnol i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23 Gorffennaf, 2019 a gododd y diffyg proffilio tenantiaid fel "Mater / Risg." Roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ddod i'w gyfarfod nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ynghylch proffilio tenantiaid.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai ei fod yn deall pryder y Pwyllgor nad oedd cymaint o gynnydd ag y gobeithiwyd wedi'i wneud gyda phroffilio tenantiaid a bod rhesymau dilys am hynny. Derbyniodd y Swyddog ei fod yn hollbwysig sicrhau bod y wybodaeth sydd gan y Gwasanaeth am ei denantiaid yn gyfredol er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol a'u bod yn cwrdd ag anghenion tenantiaid.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) y Pwyllgor fod yr holl dai Cyngor yn cael eu cofnodi ar System Rheoli Perthynas â Chleientiaid, sef Orchard. Yn ogystal â chadw gwybodaeth am bob tenant, mae'r system Orchard hefyd yn cynnwys gwybodaeth am hanes tenantiaethau, gwybodaeth am ôl-ddyledion, rhyngweithiau rhwng swyddogion, cofnod o dor-tenantiaethau a dadansoddiad o gynhwysiad ariannol. Gall cael proffiliau cywir o'r tenantiaid helpu'r adran i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyfredol, megis yr ymateb i Gredyd Cynhwysol. Yn weithredol, cyfrifoldeb y tîm gwasanaeth cwsmeriaid yw proffilio tenantiaid, sef tîm sy'n cynnwys yr hyn sy'n cyfateb i chwe swyddog amser llawn sy'n delio ag ymatebion i ymholiadau am waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd, ymateb cyswllt cyntaf ar gyfer gosod tai, ynghyd â digartrefedd a phroffilio tenantiaid. Mae lefelau staffio yn y maes gofal cwsmer wedi amrywio trwy gydol y flwyddyn ac mae hynny wedi bod yn rhwystr rhag diweddaru proffiliau tenantiaid ar sail barhaus. Mae nifer y bobl sydd wedi cysylltu oherwydd digartrefedd wedi cynyddu ac mae hynny wedi arwain at fwy o alwadau i'r tîm gofal cwsmer er mwyn helpu'r rheini sy'n ddigartref, neu sydd dan fygythiad o ddod yn ddigartref. Hefyd, mae'r tîm gwasanaeth cwsmeriaid ar hyn o bryd yn gweithredu o ddwy swyddfa ac ynddynt dri swyddog yr un bob diwrnod gwaith. Ystyrir bod gweithio o ddwy swyddfa yn her; mae cael tîm ar wasgar gyda lefelau staffio cyfnewidiol yn golygu mai ymateb i'r galwadau sy'n dod i mewn fu blaenoriaeth y tîm. I'r dyfodol, mae'r tîm Uwch Reolwyr Tai wedi cytuno y bydd y tîm Gofal Cwsmer yn gweithio o un lleoliad ac mae trafodaethau wedi cychwyn i benderfynu pa swyddfa fyddai fwyaf addas yn y tymor hir. Unwaith y bydd y tîm wedi ymgartrefu mewn un lleoliad, bydd un swyddog yn canolbwyntio ar broffilio bob dydd. Mae mwyafrif y tenantiaid yn parhau i gysylltu â'r Gwasanaethau Tai dros y ffôn gan olygu bod y gwasanaeth yn ymateb yn barhaus i alwadau. O fis Ionawr, 2020, bydd y ffocws ar gynllun 2 flynedd lle bydd tenantiaid yn gallu rhoi gwybod am faterion a rheoli eu tenantiaethau ar blatfform digidol sy'n gysylltiedig â'r system Orchard. Fel sicrwydd pellach i'r Pwyllgor, mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan O'Toole a Chyngor ar Bopeth ar faterion mewn cysylltiad â Chredyd Cynhwysol. Mae'r Cyngor wedi comisiynu adroddiadau gweithredu polisi dair gwaith y flwyddyn sy'n tynnu sylw at ardaloedd problemus o ran Credyd Cynhwysol ac mae'r hyb Credyd Cynhwysol wedi'i ddiweddaru i ganolbwyntio ar ffactorau sy'n gysylltiedig â materion sy'n codi ar ôl gweithredu Credyd Cynhwysol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth, data gwybodaeth a chasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r rheini yr effeithir arnynt gan newid yn eu budd-dal.

Cyfeiriodd y Swyddog at y ffyrdd o broffilio tenantiaid a ddefnyddiwyd cyn Mehefin 2019, cyn yr adolygiad archwilio, ac wedyn ar ôl Mehefin, 2019 ar ôl cynnal yr adolygiad archwilio. Bydd dulliau proffilio tenantiaid yn y dyfodol yn cynnwys datblygu strategaeth proffilio tenantiaid; lansio'r strategaeth yn fewnol a gweithio ar brif ffrydio gwaith proffilio tenantiaid gyda'r gwasanaethau tai; lansio'r strategaeth yn allanol gyda thenantiaid, gan bwysleisio pwysigrwydd proffilio tenantiaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Gwasanaeth

Tai am newidiadau i'r proffil; annog tenantiaid i gwblhau eu proffil eu hunain ar y porth tenantiaid digidol o fis Ionawr 2020 ymlaen a swyddogion gofal cwsmeriaid yn targedu tenantiaid trwy gael eu gweld yn amlycach ar stadau tai.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai hefyd, er budd rhoi sicrwydd, nad mater mo hwn ynghylch a oes gan y Gwasanaeth wybodaeth am ei denantiaid – oherwydd bod y wybodaeth honno ganddo eisoes– yn hytrach mae'n ymwneud ag yw'r wybodaeth sydd ganddo mor gyflawn a chyfredol ag y gallai fod. Mae gan y Gwasanaeth raglen ar gyfer cynyddu ei wybodaeth am y proffil tenantiaid, gan gynnwys gofyn i denantiaid gwblhau holiadur proffilio a dod ag ef gyda nhw pan fônt yn arwyddo i dderbyn eiddo. O ystyried bod system Orchard yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a dim ond y mis hwn wedi cynhyrchu llif gwaith i hwyluso gwaith proffilio tenantiaid, y gobaith yw y bydd proffilio tenantiaid bellach yn dod yn rhan annatod o'r gwaith dydd i ddydd. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi ymrwymo i wella gwaith proffilio tenantiaid er mwyn cefnogi eu gwasanaethau, ac unwaith y bydd y tîm Gofal Cwsmer mewn un lleoliad, bydd mesurau ar waith i sicrhau dull mwy rhagweithiol o broffilio. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn adrodd ar berfformiad i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai ac yn bwriadu cynnwys proffilio fel un o'r meysydd yr adroddir arno.

Wrth groesawu'r adroddiad - ac yn benodol y bwriad i ddatblygu strategaeth proffilio tenantiaid – fel un oedd yn rhoi sylw i'w bryderon o'r cyfarfod diwethaf, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pa gynnydd yr oedd y Gwasanaeth yn ystyried y byddai wedi ei wneud gyda phroffilio tenantiaid erbyn chwe mis o rŵan. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol), a siarad yn realistig, ac yng ngoleuni bod blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i waith ar yr Arolwg Cwsmer STAR yn ddiweddar, ei fod yn rhagweld y gellir gwneud gwelliant o 8% erbyn diwedd y flwyddyn yn y sefyllfa proffilio tenantiaid ar ôl anfon gwybodaeth ychwanegol at yr holl denantiaid.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu –**

- **Yn derbyn bod mesurau ar waith i wella proffilio tenantiaid yn yr Adran Dai;**
- **Yn cytuno bod angen datblygu strategaeth proffilio tenantiaid i sicrhau bod yr agwedd hon yn cael ei phrif ffrydio o fewn yr adran; a**
- **Cytuno hefyd bod angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai mewnol adolygu gwaith proffilio tenantiaid bob chwarter am gyfnod cychwynnol o 12 mis.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 4 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2018/19 AC ADRODDIAD ISA 260

4.1 Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad Terfynol ar Gyfrifon 2018/19 yn dilyn eu harchwilio.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y llwyddwyd unwaith eto i gwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau cyfrifon archwiliedig 2018/19. Gwnaed y gwelliannau a nodwyd yn y broses archwilio y llynedd ac maent yn parhau. Ymdriniwyd yn brydlon ac yn foddhaol â'r holl faterion oedd wedi codi yn yr archwiliad.

Dywedodd y Swyddog fod manylion y prif welliannau i'r cyfrifon drafft wedi'u nodi yn adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol isod. Mae'r holl welliannau y cytunwyd arnynt fel rhai y mae'r archwilwyr, Deloitte wedi dweud bod gofyn eu hailddatgan wedi cael eu prosesu a'u cynnwys yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Nid oedd y diwygiadau i'r Datganiad drafft yn sylweddol ac maent wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ddiwygiadau i nifer fach o nodiadau datgelu a'r Datganiad Llif Arian. Ar hyn o bryd ni wnaed unrhyw newidiadau ariannol i refeniw na chyfalaf sy'n golygu bod y prif ddatganiadau ariannol yn

aros yr un fath. Mae adroddiad yr Archwilwyr yn tynnu sylw at gamddatganiad parhaus sydd heb ei gywiro o 2017/18 mewn cysylltiad â sut y triniwyd y lwmp swm pensiwn ar gyfer costau pensiwn hanesyddol nad ydynt wedi eu hariannu. Mae hyn yn ymwneud â dehongliadau gwahanol o'r trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y lwmp swm a dalwyd yn 2017/18 ar gyfer y costau hyn a arweiniodd at arbediad oddeutu £ 200k. Ni chafodd hyn ei newid oherwydd y gwahaniaeth yn nehongliad yr Awdurdod a'r Archwilydd o ganllawiau ysgrifenedig ar y mater.

Yn dilyn eu gwaith ar y Datganiad Cyfrifon, mae'r Archwilwyr wedi gwneud 3 argymhelliad mewn perthynas â chyfrifyddu a rheoli'r gyflogres; 1 argymhelliad mewn perthynas â TG ac 1 argymhelliad mewn perthynas â rheolaethau corfforaethol y manylir arnynt yn eu hadroddiad ISA 260.

O ran y camddatganiad na chafodd ei gywiro, eglurodd y Swyddog fod yr Awdurdod, yn 2017/18, wedi gwneud taliad lwmp swm o£3.66m i Gronfa Bensiwn Gwynedd am y tair blynedd hyd at 2019/20 ar y sail y byddai'r swm hwn yn cael ei fuddsoddi ac y byddai'r Awdurdod yn derbyn disgownt (byddai'r enillion ar y buddsoddiad fel rhan o arian y gronfa bensiwn gyfun yn fwy na phe bai'r Awdurdod wedi buddsoddi'r swm ar ei ben ei hun). Mae'r Archwilwyr o'r farn y dylai'r taliad fod wedi'i godi ar y cyfrif refeniw fel gwariant yn 2017/18 yn y flwyddyn y cafodd ei wneud. Mae'r Awdurdod o wahanol farn ac, o ganlyniad, er mwyn lleihau effaith y taliad ar falans cronfa gyffredinol y Cyngor, cytunwyd i greu cronfa wrth gefn negyddol a fydd yn dirwyn i ben dros y tair blynedd gan olygu y bydd y swm wedi diflannu o'r cyfrifon erbyn y flwyddyn nesaf.

4.2 Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19 (adroddiad ISA 260) i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd Mr Ian Howse, Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol, yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol fel yr amlinellir ym mharagraff 6 o'r adroddiad, mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y bydd yr Awdurdod wedi darparu Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. O ran canlyniadau archwilio, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at gamddatganiad nad yw wedi'i gywiro gan y Rheolwyr mewn perthynas â chategoreiddio cyfraniad o £3.66m a wnaed gan y Cyngor i Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer yr elfen sefydlog o gyfraniadau'r cyflogwr am y Cyfnod 3 blynedd 2017/18 i 2019/20, (Yn ôl safonau cyfrifyddu mae'n rhaid cydnabod rhai eitemau yn ystod y flwyddyn y gwneir y taliad yn hytrach na'i wasgaru dros gyfnod o amser fel mae'r Awdurdod wedi ei wneud gyda'r taliad cyfraniad pensiwn). Amlinellir camddatganiadau a gywirwyd gan y Rheolwyr ym mharagraff 10 yr adroddiad. Roedd y Cynllun Archwilio Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Ebrill yn darparu gwybodaeth ynghylch y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod proses gynllunio'r Archwilwyr. Mae'r tabl yn adran 12 yr adroddiad yn nodi canlyniad gweithdrefnau archwilio'r Archwilwyr wrth fynd i'r afael â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol. Nid oes gan yr Archwilwyr unrhyw bryderon ynghylch agweddau ansoddol yr arferion cyfrifyddu a threfniadau adrodd ariannol y Cyngor a chanfuwyd bod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymharol, yn berthnasol ac yn hawdd ei deall. Mae polisïau ac amcangyfrifon cyfrifyddu yn briodol ac mae datgeliadau ar ddatganiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn glir. Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad ac nid oes unrhyw faterion arwyddocaol y mae angen adrodd arnynt o ran goruchwylio'r broses adrodd ariannol. Dangosir yr argymhellion sy'n codi o'r gwaith archwilio ariannol ynghyd ag ymateb y Rheolwyr iddynt yn Atodiad 3. Mae'r rhain yn feysydd lle mae'r Archwilwyr Allanol wedi nodi cyfleoedd i wella pe bai adnoddau'n caniatáu, ond nid ydynt yn effeithio ar y farn archwilio gyffredinol. Rhoddir sylw i'r rhain y flwyddyn nesaf a bydd unrhyw faterion sy'n weddill yn cael eu cynnwys yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i’r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaeth y pwyntiau isod –

• Nododd y Pwyllgor fod gwahaniaeth barn o ran trin y taliad o £3.66m a wnaed gan y Cyngor i Gronfa Bensiwn Gwynedd. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr Archwilwyr Allanol yn gyffyrddus ag agwedd yr Awdurdod tuag at y mater a'r ffordd y mae wedi cyfrif am y taliad yn y datganiadau ariannol.

Cadarnhaodd Mr Ian Howse nad yw'r Archwilwyr Allanol yn ystyried bod y camddatganiad yn berthnasol (y lefelau lle ystyrir bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yn achos Cyngor Sir Ynys Môn yw £4.91m) o ran effeithio ar farn y darllenwyr am y cyfrifon o ran y casgliadau y gallent ddod iddynt ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod, a dyna pam yr argymhellwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol. Pe bai'r Archwilwyr wedi bod yn anghyffyrddus â'r camddatganiad yna byddent wedi argymell y dylid cyhoeddi barn archwilio amodol.

• Gan gyfeirio at argymhellion yr Archwilwyr mewn perthynas â pharamedrau cyfrineiriau, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod dull yr Awdurdod o sicrhau diogelwch cyfrineiriau a rheoli cyfrineiriau yn briodol gadarn. Eglurodd y Swyddogion fod staff bellach yn cael eu cynghori i ddefnyddio cyfrinair gyda 9 nod (yn hytrach na 7 fel yn flaenorol) a bod hynny’n cynnig mwy o ddiogelwch ond nid yw mor gymhleth fel ei fod yn gwneud cyfrineiriau yn anodd eu cofio, sy’n golygu bod staff yn llai tebygol o'u hysgrifennu sy'n groes i bolisi. Mae’r cyfrineiriau mewn grym am gyfnod hwy hefyd. Mae defnyddwyr yn cael eu cloi allan ar ôl tair ymdrech aflwyddiannus i fewngofnodi a phan fo hynny’n digwydd mae'n rhaid i'r defnyddiwr gysylltu â’r Ddesg Wasanaeth / Gweinyddwr y Systemau Gwasanaeth TG i ofyn iddynt ddatgloi’r cyfrifiadur. Gyda rhai systemau (ond nid yr un ar gyfer y Gyflogres) mae cyfrinair y system wedi'i gysylltu â chyfrinair y rhwydwaith ac felly nid oes angen dau gyfrinair ar wahân.

O ran yr argymhellion a wnaed gan yr Archwiliad Allanol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 sicrwydd i’r Pwyllgor fod y rhain yn cael sylw ond y gall yr argymhellion sy'n ymwneud â rheolaethau’r gyflogres gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â hwy oherwydd ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyflogres / Taliadau sy'n broses hir. Bydd yr ailstrwythuro, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn mynd i'r afael â’r materion gwahanu dyletswyddau y mae'r Archwilwyr wedi'u hamlygu. Fodd bynnag, weithiau gall fod yn anoddach gwahanu dyletswyddau'n glir mewn tîm llai ac yn arbennig felly ar adegau o absenoldebau staff, gan olygu y bydd yn rhaid gwneud gwiriadau ar adegau o'r fath ar ôl talu yn hytrach na chyn talu.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn a nodi'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2018/19 ac argymell bod y Cyngor Llawn yn ei dderbyn.**
- **Nodi Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19 a chyfeirio'r Datganiad at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

**5 LLYWODRAETHU GWYBODAETH: ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) 2018/19**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) sy'n darparu dadansoddiad o'r materion llywodraethu gwybodaeth (LIG) allweddol am y cyfnod rhwng 1

Ebrill, 2018 a 31 Mawrth, 2019 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd o welliant parhaus o ran rheoli risg gwybodaeth yn ystod y cyfnod.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (UBRG) ar y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Cofnodwyd 29 o ddigwyddiadau diogelwch data yn ystod y cyfnod adrodd (20 yn 2017/18) ac roedd 26 ohonynt ar Lefel 0-1 (digwyddiadau trwch blewyn neu rai a gadarnhawyd fel digwyddiadau diogelwch data ond nad oedd angen adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) a rheoleiddwyr eraill amdanynt) a 3 ar Lefel 2 (digwyddiadau diogelwch data y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt i'r SCG a rheoleiddwyr eraill sy'n briodol). Mae'r adroddiad yn darparu dadansoddiad o natur y digwyddiadau.
- Derbyniwyd 1,052 o geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd a oedd yn cynnwys cyfanswm o 7,532 o gwestiynau.
- Cafwyd 20 cais am Adolygiad Mewnol o ymateb i gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mewn 9 achos, cadarnhaodd yr adolygiad yr ymateb gwreiddiol; ni chadarnhawyd 1 achos ac anfonwyd ymateb Adran 1 newydd, a gwrthodwyd 1 cais gan fod ymateb wedi'i anfon cyn derbyn y cais am adolygiad mewnol.
- Cyflwynwyd 6 apêl i'r SCG yn y cyfnod. Mewn 4 achos, gofynnwyd i'r Cyngor anfon ymateb; tynnwyd 1 achos yn ôl ac mewn 1 achos cadarnhawyd ymateb y Cyngor.
- Gwnaed ac ymchwiliwyd i 8 cwyn dan y Ddeddf Diogelu Data – 2 cyn i'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ddod i rym a 6 ar ôl iddynt ddod i rym. Nid ymchwiliodd yr SCG i unrhyw gwynion Deddf Diogelu Data.
- Derbyniwyd 46 o Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth gydag 81% o'r ymatebion yn cael eu hanfon o fewn y dyddiad cau statudol ar gyfer ceisiadau o'r fath a cheisiadau cymhleth.
- Mae Swyddfa'r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn goruchwylio sut mae awdurdodau lleol yn cynnal gweithgareddau o ran ffynonellau gwyliadwriaeth a chudd-wybodaeth ddynol yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Nod cyfundrefn RIPA yw sicrhau bod gwyliadwriaeth dan gyfarwyddyd yn digwydd mewn ffordd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Ychydig iawn o ddefnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o wyliadwriaeth gudd a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol (cyfeirier at Atodiad 1 i'r adroddiad). Archwiliwyd prosesau ac arferion y Cyngor gan Swyddfa'r Comisiynwyr Pwerau Ymchwilio yn ystod mis Medi 2018 a chadarnhaodd yr archwiliad fod lefel cydymffurfiaeth y Cyngor yn golygu nad oedd angen unrhyw arolygiad corfforol ac mai'r cwbl yr oedd raid i'r Cyngor ei wneud oedd cynnal adolygiad o'i awdurdodiad CHIS cyfredol, gwneud mân newidiadau i'w Ddogfennau a darparu hyfforddiant gloywi ar gyfer swyddogion awdurdodi ac ymgeiswyr.
- Yn dilyn ymlaen o'r cyfnod cychwynnol o weithredu'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), 'roedd dadansoddiad o ddogfennau sicrhau diogelwch data'r Cyngor yn awgrymu bod meysydd allweddol yr oedd gofyn eu datblygu ac ymchwilio ymhellach iddynt. Cafodd yr elfennau hyn eu hymgorffori mewn Cynllun Diogelu Data ar gyfer y Flwyddyn (Atodiad 2 i'r adroddiad). Mae'r Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n peri'r risgiau uchaf i'r Cyngor yn y Gwasanaethau yr ystyrir eu bod yn risg uchel oherwydd natur y prosesu data personol sy'n digwydd ynddynt. Dyma pam y rhoddir sylw arbennig i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Oedolion, y Gwasanaeth Dysgu (sy'n cynnwys yr Awdurdod Addysg Lleol) a'r Gwasanaeth Tai.
- Mae pwysigrwydd hyfforddiant fel diogelwch ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion diogelu data yn glir. Er bod y Cyngor wedi bod yn rhoi hyfforddiant ar faterion diogelu data ers 2013, roedd cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ar ddiogelu data yn 2018 yn golygu bod rhaid rhoi hyfforddiant newydd yn gyffredinol. Mae'r adroddiad yn manylu ar yr hyfforddiant a ddarparwyd trwy'r modiwl E-ddysgu a gyflwynwyd i'r holl staff er mwyn sicrhau bod ganddynt lefel sylfaenol o wybodaeth am ofynion GDPR. Mae'r modiwl hefyd yn dangos lefelau cyfranogi pob gwasanaeth. Mae cyfranogiad Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig yn yr hyfforddiant diogelu data hefyd yn cael ei gofnodi.

• Yn ogystal, datblygwyd modiwl hyfforddi a fwriadwyd ar gyfer swyddi y mae cofnod y Cyngor o ddigwyddiadau diogelwch data yn dangos bod ganddynt rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau diogelwch data a chydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth. Cyflwynwyd yr hyfforddiant i staff rheng flaen a rheolwyr canol oherwydd bod y swyddi hynny'n bwysig o ran sicrhau diogelwch data. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau dan arweiniad hyfforddwr ar gyfer y staff hynny yr oedd eu Penaethiaid Gwasanaeth yn ystyried eu bod mewn swyddi allweddol - dangosir lefelau presenoldeb ar gyfer pob gwasanaeth yn yr adroddiad ac nid ydynt ond yn cynnwys y rheini a enwebwyd i fynychu'r hyfforddiant gan eu Penaethiaid Gwasanaeth.
• Ar wahân i hyfforddiant, yr elfen allweddol bwysicaf o'r Cynllun Gwaith oedd archwilio dibyniaeth Gwasanaethau'r Cyngor ar ganiatâd fel sail ar gyfer prosesu data personol. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i adolygu ei ddefnydd o ganiatâd ac i gymryd camau cywiro os nad caniatâd yw'r sail gyfreithiol briodol ar gyfer prosesu data personol. Mae'r archwiliad wedi arwain at fwy o wybodaeth am brosesau'r Gwasanaethau ac er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Tai wedi gwneud cynnydd ardderchog gyda'r archwiliad, nid oedd y Gwasanaeth Dysgu wedi medru neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen i flaenoriaethu'r gwaith hwn ac felly ychydig o gynnydd a wnaeth. Bydd y Gwasanaeth yn cael cymorth i sicrhau bod y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth nesaf. 'Roedd gwaith i sicrhau ansawdd yr archwiliad yn parhau ar ôl cyfnod yr adroddiad.
• Mae'r adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â darparu sicrwydd Camerâu Goruchwylio, gan nodi hefyd nad yw'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a Chôd y Comisiynydd Camerâu Goruchwylio.

Wrth drafod yr adroddiad, holodd y Pwyllgor am y gost o fynd i'r afael â'r 1,052 o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd y Cyngor yn ystod y cyfnod ac a oes gan y Cyngor y capasiti i ddelio'n effeithiol â'r gwaith hwn o ystyried nifer y ceisiadau. Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a yw peidio â bod yn ddigon agored neu dryloyw o ran argaeledd gwybodaeth yn ffactorau y gellir eu priodoli i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro na wnaed amcangyfrif o'r gost o ran yr amser a gymerir gan y Swyddog i ddelio â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan fod y gyfraith yn dweud bod rhaid i'r Cyngor ymateb i'r ceisiadau a darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani oni bai bod rheswm da dros beidio (h.y. mae'r wybodaeth yn wybodaeth eithriedig). Manion na fyddai'r Cyngor yn eu cyhoeddi fel mater o drefn yw llawer o'r wybodaeth y gofynnir amdani. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Cyngor gael cynllun cyhoeddi a chyhoeddi gwybodaeth y mae'n rhesymol iddo ei chyhoeddi. Adolygwyd hyn yn ddiweddar. Mwyaf yn y byd o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chyhoeddi fel mater o drefn, lleiaf yn y byd o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a geir, ond, serch hynny, nid yw'n gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran y niferoedd a dderbynnir. Mae cyflwyno'r rheoliadau GDPR wedi codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac o ganlyniad, mae'r cynnydd mewn ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn batrwm sy'n cael ei ailadrodd ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r capasiti i ddelio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ymestyn ar draws yr Awdurdod yn yr ystyr mai'r swyddogion a ddynodwyd i ddelio â Rhyddid Gwybodaeth yw'r rhai sy'n gwneud y gwaith yn eu meysydd ac sy'n ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth fel rhan o'r dyletswyddau hynny. Er yr ystyrir bod y capasiti'n ddigonol ar hyn o bryd, gofynnwyd i'r Penaethiaid Gwasanaeth dynnu sylw at unrhyw faterion a allai godi, yn enwedig o ganlyniad i geisiadau mwy cymhleth a all gymryd llawer o amser.

**Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn ac yn mabwysiadu argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn –**

- **Bod yr holl Aelodau nad ydynt hyd yma wedi cyflawni'r modiwl diogelu data e-ddysgu yn gwneud hynny cyn pen tri mis i'r cyfarfod hwn.**
- **Bod y Gwasanaeth Dysgu yn sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu neilltuo i sicrhau bod yr archwiliad caniatâd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth, 2020.**
- **Bod archwiliad y Cyngor o'i systemau camerâu goruchwylio'n cael ei gefnogi gan y gwasanaethau;**
- **Bod y Swyddog Diogelu Data ar gyfer Ysgolion yn ystyried risgiau camerâu goruchwylio ac yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion ar arferion gorau.**
- **Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r camau sy'n weddill yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Diogelu Data fel rhai sy'n adlewyrchu'r risgiau llywodraethu gwybodaeth y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar hyn o bryd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL: PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU'R CHWIBAN 2018/19**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn darparu gwybodaeth am faterion sy'n codi o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor am y cyfnod 1 Ebrill, 2018 i 31 Mawrth, 2019. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Ymdrinnir â chwynion defnyddwyr gwasanaeth o dan Weithdrefn Sylwadau a Chwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddir arnynt yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn rhoi sylw iddo, derbyniwyd 62 o bryderon a gwnaed 76 o gwynion. O'r 76 o gwynion, mae un (Tai) yn parhau i fod yn agored gan nad yw'r gwaith y mae angen ei wneud wedi'i gwblhau ac mae un arall (Cynllunio) ar stop am y tro ar hyn o bryd gan fod y Cyngor yn aros i glywed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Felly, ymchwiliwyd ac ymatebwyd i 74 o gwynion yn ystod y cyfnod hwn. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd yn parhau i fod ar tua'r un lefel ag yn 2017/18.
- O'r 74 o gwynion yr ymdriniwyd â hwy yn ystod y cyfnod, cadarnhawyd 16 yn llawn, cadarnhawyd 7 yn rhannol ac ni chadarnhawyd 51 ohonynt. Cyfeiriwyd 9 cwyn i OGCC, gwrthodwyd 5 gan OGCC a datryswyd 4 (Adnoddau) trwy ddatrysiad cynnar. Roedd pob un o'r 9 cwyn a uwchgyfeiriwyd at OGCC wedi bod trwy'r broses fewnol. Darperir dadansoddiad o'r pryderon a'r cwynion fesul gwasanaeth yn yr adroddiad.
- Ymatebwyd i 92.6% o'r cwynion o fewn y terfyn amser penodedig (20 diwrnod gwaith). Roedd 9% o'r cwynion a dderbyniwyd (i fyny o 5% yn 2017/18) yn deillio o bryderon a uwchgyfeiriwyd. Mae hynny'n parhau i ddangos bod gwasanaethau'n delio'n effeithiol â phryderon a thrwy hynny'n cyfyngu nifer y cwynion ffurfiol.
- Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a thrwy hynny wella gwasanaethau. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn egluro pa wersi a ddysgwyd ac unrhyw arfer sydd wedi esblygu o ganlyniad i'r canfyddiadau hyn.
- Os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor i gŵyn, mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn cynnwys yr opsiwn o uwchgyfeirio'r gŵyn i OGCC. Roedd 18 o gwynion wedi eu huwchgyfeirio trwy'r broses hon o fewn amserlen OGCC - dim ond 1 a ystyriwyd yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad; mater Priffyrdd oedd hwn ac ymdriniwyd ag ef trwy i'r Cyngor gytuno i ddatrysiad gwirfoddol cynnar.

- Yn ystod 2018/19, derbyniodd OGCC 1 gŵyn côd ymddygiad yn erbyn Cynghorydd Sir ond cafodd ei chau ar ôl yr asesiad cychwynnol. Ni chafwyd unrhyw ymchwiliadau yn erbyn Cynghorwyr Sir.
- Er na chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud ag iaith yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd a chofnodwyd 4 mynegiad o bryder yn ymwneud â'r materion a gofnodwyd yn yr adroddiad. Datryswyd pob un o'r 4 heb iddynt gael eu huwchgyfeirio i fod yn gwynion ffurfiol.
- Yn ystod 2018/19, derbyniwyd 1 pryder chwythu'r chwiban o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor ac fe'i nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol o dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi / Canllawiau Chwythu'r Chwiban.**
- **Derbyn a nodi'r Tabl Gwersi a Ddysgwyd fel yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL.**

## 7 DERBYN POLISIAU - DATA CYDYMFFURFIAETH BLWYDDYN 2

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn darparu manylion am gydymffurfiaeth ynghylch yr ail rownd o bolisïau a gyflwynwyd i'w derbyn trwy system Porth Polisi'r Cyngor yn ogystal â lefelau cydymffurfio'r Gwasanaeth Dysgu o ran y rownd gyntaf o bolisïau. Mae'r data a gyflwynir yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael yn 16/17 a 19 Gorffennaf, 2019.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar y prif bwyntiau fel a ganlyn –

- Bod 8 polisi - Polisi Diogelu Data; Polisi Diogelwch TG, Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Polisi Defnydd Derbyniol TG, Polisi Diogelu, Côd Ymddygiad Swyddogion, Polisi Defnydd E-bost a Negeseuon Gwib a'r Polisi Chwythu'r Chwiban - ar gael i'w derbyn rhwng 2 Gorffennaf, 2018 a 3 Mehefin, 2019 fel y penderfynwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA). Cyflwynwyd y polisi terfynol yn y gyfres gyfredol – y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - i'w dderbyn ar 29 Gorffennaf a bydd y cyfnod derbyn o chwe wythnos yn cau ar 9 Medi, 2019.
- Mae manylion lefelau cydymffurfio ar gyfer yr 8 polisi ar draws y Cyngor a thrwy'r gwasanaethau ar gael yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Ar gyfartaledd, mae'r lefelau cydymffurfiaeth at gyfer yr holl bolisïau yn 95% ar draws y Cyngor, sydd yr un fath â llynedd. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd o 87% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos a osodwyd ar gyfer pob polisi, sy'n welliant ar y ffigwr o 79% y llynedd.
- Adroddwyd y llynedd bod lefelau cydymffurfiaeth yn y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol gyda chyfradd gydymffurfio ar gyfartaledd o 99% ar 24 Gorffennaf, 2018 o'i gymharu â chyfartaledd o 57% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i wella ac wedi cyflawni cyfradd gydymffurfio o 100% ar gyfer pob un o'r 8 polisi a chydymffurfiaeth 100% ar ddiwedd y cyfnod derbyn o chwe wythnos ar gyfer y 4 polisi diwethaf.
- Gellir gweld gwelliant sylweddol hefyd yn y Gwasanaethau Oedolion ym mis Gorffennaf, 2019 gyda'r lefelau cydymffurfio yn 92% o gymharu â 78% ym mis Gorffennaf, 2018. Mae staff y Gwasanaeth Dysgu wedi bod yn rhan o'r broses gorfforaethol ers mis Gorffennaf 2018 a bu gofyn iddynt ddal i fyny trwy dderbyn y 7 polisi cyntaf yn ogystal â derbyn yr ail rownd o bolisïau wrth iddynt gael eu rhyddhau i'w derbyn. Mae Atodiad 2 yn

nodi lefelau cydymffurfio'r gwasanaeth gan ddangos cyfradd gydymffurfio ar gyfartaledd o 99%.

- Yn dilyn adolygiad gan yr UDA, bydd nifer y polisïau yn y set graidd yn gostwng o 16 i'r 9 polisi a restrir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad. Dim ond unwaith ym mhob cyfnod o 2 flynedd y bydd angen derbyn y 9 polisi hyn ond byddant ar gael trwy gydol yr amser hwnnw ar gyfer staff newydd.
- Mae'r Porth Polisi yn dibynnu ar Gyfeiriadur Gweithredol (CG) y Cyngor ac mae'n cynnwys tua 1,000 o ddefnyddwyr gweithredol. Cydnabuwyd dibyniaeth y Porth ar y CG fel gwendid o'r cychwyn cyntaf gyda'r Pwyllgor hwn yn codi pryderon nad yw staff sydd ddim yn defnyddio'r CG yn cael eu cynnwys yn y broses. Cydnabuwyd y gallai fod angen gwahanol ddulliau i gyrraedd y gwahanol gategorïau o staff nad ydynt yn defnyddio'r CG ac er mwyn symud ymlaen â'r mater hwn, cynhelir trafodaethau gyda phob Pennaeth Gwasanaeth perthnasol i nodi'r categorïau risg uchaf ac atebion cymesur ac ymarferol posib i fynd i'r afael â'r risg.
- Disgwylir i staff nad ydynt, yn dechnegol, yn cael eu cyflogi gan y Cyngor ac sy'n gweithio i bartneriaethau ac asiantaethau ac ati weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor, yn enwedig o ran diogelu data, diogelwch, cyfrinachedd ac ymddygiad. Felly mae angen sicrwydd ar yr Awdurdod bod yr unigolion hyn yn ymwybodol o bolisïau allweddol y Cyngor a'u bod yn cydymffurfio â nhw. I'r perwyl hwn, cynigir cyflwyno datganiad yn gofyn i staff nad ydynt, yn dechnegol, yn weithwyr y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o rai polisïau corfforaethol a'u bod yn glynu wrthynt.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar sut y cedwir llygad ar lefelau cydymffurfio ar draws y Cyngor. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y cyflwynir y lefelau cydymffurfio fesul gwasanaeth i'r UDA ar ddiwedd y cyfnod derbyn o 6 wythnos a neilltuwyd ar gyfer pob polisi. Cynhyrchir e-bost atgoffa wythnosol yn awtomatig gan y Porth Polisi yn rhestru'r holl bolisïau sy'n weddill ar gyfer pob defnyddiwr. Mae gan bob Pennaeth Gwasanaeth fynediad uniongyrchol i'r Porth hefyd i fonitro cydymffurfiaeth yn eu gwasanaethau eu hunain. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y Porth Polisi gan staff ysgolion gan fod ganddynt eu system eu hunain i adlewyrchu'r gwahanol bolisïau sy'n berthnasol o fewn ysgolion.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sefyllfa bresennol o ran derbyn polisïau ar draws y Cyngor.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor. 'Roedd yr adroddiad yn dilyn y fformat a'r arweiniad a ddatblygwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n darparu cyfres o benawdau ar gyfer adrodd ar berfformiad iechyd a diogelwch a ddylai gynorthwyo i nodi ymrwymiad, gallu a chyfeiriad mewn perthynas â rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys data ar yr holl ddamweiniau a digwyddiadau y cafwyd gwybod amdanynt yn 2018/19 ac roeddent wedi eu categoreiddio fel mân ddigwyddiadau, digwyddiadau difrifol a digwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) sy'n ddigwyddiadau sy'n cwrdd â meini prawf penodol y mae'n rhaid adrodd arnynt i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch. Mae'r tabl ar dudalen 7 yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r digwyddiadau yn ôl eu math ac fe'u torrwyd i lawr ymhellach yn is-gategorïau ar gyfer rhai digwyddiadau. Mae'r fformat tabl yn caniatáu cymharu â'r data ar gyfer y tair blynedd flaenorol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y data'n dangos ei fod yn edrych mai trais ac ymddygiad ymosodol a chodymau yw'r mathau mwyaf arwyddocaol o ddigwyddiadau. O ran trais ac ymddygiad ymosodol (cyfanswm o 287 o gymharu â 237 yn 2017/18), y nifer uchaf o ddigwyddiadau yw'r rheini sy'n cynnwys ymddygiad heriol lle efallai nad oes bwriad i niweidio (106). Mae camdriniaeth eiriol gan aelodau o'r cyhoedd hefyd yn nifer sylweddol (103 o ddigwyddiadau o gymharu â 53 yn 2017/18). Er mai galwadau ffôn yw'r mwyafrif o'r rhain mae rhai yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb. Gellir priodoli'r cynnydd i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys pwysau cymdeithasol, yr hinsawdd economaidd a'r galw cynyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae digwyddiadau codwm yn ymwneud yn bennaf â disgyblion ysgol a chleientiaid mewn cartrefi, ac nid oes a wnelo'r mwyafrif ohonynt â goruchwyliaeth neu broblemau gyda'r amgylchedd. Mae'r categori "Math arall o Ddamwain" hefyd yn dangos nifer uchel o ddigwyddiadau (135) ac mae'n cynnwys adroddiadau am ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd fel "celcio" mewn tai Cyngor; materion diogelu posib a gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau allanol a allai effeithio ar ddyletswydd gofal y Cyngor. Adolygir hyn i sefydlu a ellir cofnodi'r digwyddiadau hyn fel digwyddiadau 'trwch blewyn' neu a oes angen dull ychwanegol o gofnodi.

Wrth drafod yr adroddiad, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar yr hyn sy'n penderfynu a oes angen rhoi gwybod am ddigwyddiad fel un RIDDOR, a ph'un a yw pob digwyddiad o'r fath yn ddifrifol iawn ac a yw'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad yn hyn o beth yn erbyn awdurdodau eraill. Eglurodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod yna feini prawf penodol sy'n penderfynu a oes raid adrodd am ddigwyddiad fel un RIDDOR a rhoddodd enghreifftiau o ddigwyddiadau sy'n cwrdd â diffiniad RIDDOR e.e. anafiadau i weithwyr sy'n golygu na allant weithio am dros 7 niwrnod. Weithiau, bydd digwyddiad yn ddifrifol ond nid yn un y byddai'n rhaid rhoi gwybod amdano dan y rheoliadau RIDDOR ond byddai'n destun ymchwiliad mewnol manylach. Mae ymchwilio i ddigwyddiadau RIDDOR yn un o dargedau perfformiad y Gwasanaeth. O dan RIDDOR, rhaid rhoi gwybod hefyd am anafiadau i weithwyr nad ydynt yn weithwyr y Cyngor ond lle bu'n rhaid eu cludo'n uniongyrchol i'r ysbyty (boed yr anafiadau'n ddifrifol ai peidio). Cadarnhaodd y Swyddog nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn ymgymryd ag unrhyw feincnodi yn erbyn awdurdodau eraill o ran iechyd a diogelwch ond yn y gorffennol pan oedd cymariaethau'n cael eu gwneud, roedd ei berfformiad mewn perthynas ag adrodd ar ddigwyddiadau RIDDOR (a ddefnyddir fel meincnod oherwydd bod ei safonau'n berthnasol i bob Cyngor) yn debyg yn gyffredinol i berfformiad awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Nid yw Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Gogledd Cymru wedi cyfarfod ers rhai blynyddoedd er y bu cais iddo gael ei ailsefydlu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch personol Cynghorwyr yn enwedig mewn hinsawdd lle gallent fod mewn mwy o berygl oherwydd natur eu dyletswyddau a'r rhyngweithio sydd ganddynt gyda'r cyhoedd. Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod y Cyngor yn gyfrifol am ddiogelwch Cynghorwyr pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau ar ei ran. Dywedodd y Swyddog y gofynnwyd iddo gyfrannu at hyfforddiant i gynghorwyr ar ddiogelwch personol ac i'r perwyl hwnnw ei fod yn gweithio ar gyflwyniad. Gofynnodd y Pwyllgor am i'r hyfforddiant gael ei ddarparu cyn gynted ag y bod modd.
- Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y cynnydd mewn digwyddiadau treisgar a thynnodd sylw at 8 digwyddiad lle cafodd gweithiwr ei daro, a nododd hefyd y cynnydd yn nifer y digwyddiadau treisgar lle'r oedd aelod o'r cyhoedd wedi cam-drin aelod o staff yn eiriol a oedd bron wedi dyblu o 53 i 103. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd yr Heddlu'n cael gwybod am ddigwyddiadau treisgar, ac er budd diogelu staff, a ddylai fod rhybudd clir ym mhrif dderbynfa'r Cyngor yn dweud y bydd yr Heddlu'n cael gwybod am ymddygiad treisgar yn erbyn staff ac a yw'r Awdurdod yn fodlon bod staff yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt pan fyddant wedi dioddef trais neu gamdriniaeth wrth gyflawni eu gwaith. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid dadansoddi'r data ymhellach, trwy ddangos

nifer y digwyddiadau ym mhob gwasanaeth, gan y gallai tenantiaid tai, er enghraifft, fod yn torri eu tenantiaeth wrth gam-drin staff yn eiriol a gellir cymryd camau cadarnhaol yn erbyn y fath ymddygiad. Eglurodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod mwyafrif y digwyddiadau treisgar yn digwydd yn amgylchedd yr ysgolion, sef disgybl yn erbyn disgybl o bosib, ond nad oedd yn ymwybodol bod yr Heddlu'n cael gwybod amdanynt. Er bod mwyafrif yr ymosodiadau corfforol yn ymwneud ag ymddygiad heriol lle mae problemau galluedd meddyliol a lle na ellid sefydlu bod bwriad i niweidio, mae nifer yr ymosodiadau corfforol cyffredinol lle na nodwyd unrhyw faterion galluedd meddyliol hefyd wedi cynyddu. Dywedodd y Swyddog, er nad oedd yn ymwybodol o unrhyw erlyniadau a ddeilliodd ohonynt, fod 2 ddigwyddiad yr oedd yr Heddlu wedi rhoi sylw iddynt. Mae arwyddion yn Cyswllt Môn (derbynfa gyhoeddus y Cyngor) sy'n tynnu sylw at y ffaith na fydd trais ac ymddygiad ymosodol yn cael eu goddef; mae cynnwys cyfeiriad ynddynt at yr Heddlu yn fater i'w drafod. Ar gyfer staff sydd wedi dioddef camdriniaeth yn ystod eu gwaith, mae cefnogaeth ac ymwybyddiaeth ar lefel Rheolwyr Llinell ac, yn ogystal, gwnaed diwygiadau i'r Polisi Rheoli Cyswllt - Camau Derbyniol gan Gwsmeriaid a'r Polisi a'r Gweithdrefn Marcio'r Perygl o Drais.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gan staff yr hawl i ddod â galwad ffôn i ben os yw'r galwr yn eu cam-drin ar lafar ac i roi gwybod am alwadau o'r fath i'r Pennaeth Gwasanaeth. Os bydd hyn yn digwydd dro ar ôl tro, yna mae'r Polisi Marcio Perygl o Drais yn darparu ar gyfer nodi'r galwr fel un sy'n ymosodol / bygythiol.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn yr Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac yn argymell bod yr adroddiad yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod a bod y Cynllun Datblygu yn cael ei weithredu.**

**NI WNAED UNRHYW GYNNIG YCHWANEGOL**

**9 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, darparu sicrwydd ac adolygiadau a gwblhawyd.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fel a ganlyn -

- Bod tri adroddiad Archwilio Mewnol wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod a bod dau ohonynt wedi arwain at ddyfarnu sgôr Sicrwydd Sylweddol - sef Archwiliadau Ardystio Grant mewn perthynas â Rhentu Doeth Cymru a'r Grant Datblygu Disgyblion. Cynhyrchodd y trydydd adolygiad, a oedd yn ymwneud â Diogelu Corfforaethol, sgôr Sicrwydd Rhesymol ac roedd yn dwyn sylw at 4 mater / risg fawr y mae angen mynd i'r afael â hwy. Dynodwyd y materion / risgiau yn rhai mawr oherwydd eu heffaith bosib yn y maes hwn. Fodd bynnag, ar y cyfan, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi gweithredu nifer o reolaethau effeithiol i reoli'r risg y bydd camgymeriad diogelu difrifol yn achosi neu'n cyfrannu at niwed i'r rheini y mae ganddo gyfrifoldeb i'w hamddiffyn ac, o ganlyniad, roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn y maes hwn.
- Bod tri adroddiad sydd â sgôr Sicrwydd Cyfyngedig wedi'u hamserlennu ar gyfer adolygiad dilyn-i-fyny fel y manylir ym mharagraff 15 yr adroddiad. Cynhelir dau adolygiad dilyn-i-fyny ar hyn o bryd - Casglu Incwm Ysgolion Cynradd (adolygiad dilyn-i-fyny cyntaf) ac Amrywiol Ddyledwyr (ail adolygiad dilyn-i-fyny). Gohiriwyd yr adolygiad dilyn-i-fyny- ar Fynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau hyd nes y cwblhawyd ailstrwythuro'r swyddogaeth Cyflogres / Taliadau.
- Bod Gwasanaeth TG y Cyngor wedi cadarnhau bod y diweddariad i'r system gorfforaethol o'r enw “4 action” ar gyfer tracio camau gweithredu y cyfeiriwyd ato yn

adroddiadau chwarterol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y misoedd diwethaf bellach wedi'i gyflunio ac wrthi'n cael ei brofi. Mae'r broses hon wedi amlygu rhai problemau y mae'r cyflenwr yn gweithio i'w datrys ar hyn o bryd. Aethpwyd ar ôl y materion hyn a gobeithir y gellir symud ymlaen yn awr.

• Ychydig o newid sydd wedi bod o ran y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2019/20 yn y chwe wythnos ers y diweddariad diwethaf i'r Pwyllgor. Er bod y tymor gwyliau wedi llesteirio cynnydd, mae nifer o adroddiadau drafft wedi'u cyhoeddi sy'n aros am ymateb y rheolwyr ac mae'r gwaith wedi parhau ar sawl archwiliad fel y manylir ym mharagraff 19 o'r adroddiad yn ogystal â darn o waith ymgynghori ar fenthyciadau ceir staff.

Wrth ystyried yr adroddiad gofynnodd y Pwyllgor, o gofio effaith bosib y 4 mater / risg a nodwyd mewn maes mor sensitif â diogelu, a ddylai'r adolygiad fod wedi arwain at Sicrwydd Cyfyngedig gan sicrhau felly y byddai'n cael ei ddilyn-i-fyny'n ffurfiol ac yr adroddir ar y canlyniad i'r Pwyllgor hwn.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu yn ogystal â'r Gwasanaeth Addysg ac ysgolion a bod y darlun gwirioneddol yn fwy cadarnhaol nag y mae'r sefyllfa fonitro gorfforaethol yn ei adlewyrchu. Yn ymarferol, cynhelir gwiriadau ac adnewyddiadau GDG ac mae'r problemau a nodwyd yn ymwneud â materion cadw tŷ arferol sy'n ymwneud â GDG e.e. diffyg cofnodion ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd diogelu strategol a diffyg system integredig i gofnodi a monitro cydymffurfiaeth ac adnewyddiadau GDG gyda dibyniaeth yn cael ei rhoi yn lle hynny ar brosesau maniwal yn y gwasanaethau a oedd yn achosi rhai problemau, yn enwedig i staff ysgolion. Roedd gwaith yn mynd rhagddo yn ystod yr archwiliad ac mae'r materion a amlygwyd wedi'u hystyried ac mae'r Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn dweud y bydd y Cyngor yn caffael system GDG cyn bo hir lle gellid cyflwyno nifer uchel o geisiadau GDG gyda'i gilydd ar un tro.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er na fydd yr adolygiad yn cael ei ddilyn-i-fyny yn yr un modd ag ar gyfer adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig, bydd yn ofynnol i Swyddogion ddiweddaru'r system dracio gorfforaethol i dracio'r cynnydd a wnaed gyda rheoli'r risgiau a nodwyd ac ni fydd y rhain yn cael eu cau i lawr hyd nes bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn fodlon eu bod wedi cael sylw llawn neu eu lliniaru'n llwyr. Pe bai unrhyw un o'r Materion / Risgiau yn parhau i fod heb gael sylw, yna fel risgiau mawr neu ambr byddant yn dod i sylw'r Pwyllgor fel rhan o'r adroddiadau bob chwe mis ar Faterion / Risgiau Archwilio Mewnol sydd angen sylw. Mae Diogelu Corfforaethol hefyd yn cael ei adolygu'n flynyddol fel elfen o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd diweddaraf gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, rhoi sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd a'i berfformiad a'i effeithiolrwydd o ran gyrru gwelliant.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**10 MATERION A RISGIAU SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar statws a manylion y risgiau sy'n weddill y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'u hamlygu.Manylwyd ar y rhain yn Atodiad A i'r adroddiad ac roeddent hefyd yn cynnwys diweddariad ar gynnydd gan y Rheolwyr sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r problemau / risgiau a gofnodwyd.

Adroddodd y Prif Archwilydd fel a ganlyn –

• Nad oes unrhyw Faterion / Risgiau Uchel neu Goch yn weddill, ac mae perfformiad wrth fynd i'r afael â materion / risgiau sydd â sgôr Ambr wedi gwella ers y diweddariad blaenorol ym mis Gorffennaf gyda'r ganran weithredu gyffredinol ar gyfer materion / risgiau Uchel / Coch / Ambr yn 92%.
• Bu gwelliant bach hefyd mewn perfformiad ar gyfer y risgiau Canolig / Melyn gyda gostyngiad cyffredinol o 5 yn nifer y gweithredoedd sy'n weddill, a'r rheini wedi'u gwasgaru ar draws gwasanaethau.
• Ar 11 Awst, 2019, y gyfradd weithredu oedd 100% ar gyfer materion / risgiau Uchel / Coch; 83% ar gyfer materion / risgiau Ambr; 97% ar gyfer problemau / risgiau Canolig; 80% ar gyfer risgiau / materion Melyn.
• Bod 2 adolygiad dilyn-i-fyny, sef ar Amrywiol Ddyledwyr a Chasglu Incwm Ysgolion eisoes wedi cychwyn ac mae'r ddau adolygiad hyn yn cyfrif am 6 allan o'r 9 o faterion / risgiau canolig sy'n weddill.
• Bod cadarnhad wedi ei dderbyn bod y camau gofynnol o dan eitem 9 yn Atodiad A - Cydymffurfiad PCI DSS mewn perthynas â'r Gwasanaeth Trawsnewid bellach wedi'u cwblhau.
• Bod gweithredu'r system tracio gweithredu corfforaethol ar ei newydd wedd yn rhoi cyfle i adolygu fframwaith adrodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â'r dull archwilio newydd a'i bod yn ddefnyddiol, yn gryno, yn berthnasol ac yn amserol. Gan y bydd yn haws cyflunio paramedrau adrodd y system newydd o'r cychwyn cyntaf yn hytrach na gwneud newidiadau unwaith y bydd yn weithredol, ystyriwyd ei bod yn ddoeth ymgynghori â'r Pwyllgor ynghylch ei ofynion adrodd cyn yr uwchraddio fel y gellir cynnwys y rhain yn y system. Rhagwelir y gellir cyflunio'r system newydd i adrodd yn haws ar feysydd fel y rhestrir nhw ym mharagraff 14 yr adroddiad – sef meysydd sydd angen ymyrraeth faniwal sylweddol ar hyn o bryd.

Er y byddai'n gymorth pe gellid ymgorffori'r holl elfennau ym mharagraff 14, nododd y Pwyllgor wrth ystyried yr adroddiad a'r math o wybodaeth yr hoffai ei chael o o dan y system dracio newydd, y byddai gwahanu'r risgiau coch ac ambr yn arbennig o ddefnyddiol.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn –**

**• Nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a'r risgiau Archwilio Mewnol sy'n weddill, a**
**• Cefnogi cynnwys yr elfennau a nodir ym mharagraff 14 o'r adroddiad fel rhan o'r trefniadau adrodd i'r Pwyllgor yn y dyfodol o dan y system dracio '4action' newydd.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

**11 SIARTR ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori Siarter Archwilio Mewnol wedi'i diweddaru.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg, er nad oes disgwyl i'r Siarter Archwilio gael ei hadolygu'n llawn tan Ebrill, 2020, fod adolygiad a gynhaliwyd i sicrhau ei phriodoldeb parhaus wedi nodi'r ddau fân-newid a ganlyn -

• Diwygio'r holl gyfeiriadau at y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn y ddogfen i adlewyrchu ailddynodi'r swydd yn Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.

- Ychwanegu Paragraff 30 i adlewyrchu Datganiad CIPFA ar y Pennaeth Archwilio Mewnol (2019).

**Penderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAM GWEITHREDU GWEITHREDU YCHWANEGOL.**

## 12 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor i'w hadolygu **a chafodd ei chymeradwyo gyda'r diwygiadau a ganlyn -**

- Eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 - Cyflwyno Gwirio yn Seiliedig ar Risg – Budd-daliadau Tai / Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- Ailamserlennu Adroddiad Diogelwch TGCh Blynyddol 2018/19 o gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi i'w gyfarfod ym mis Rhagfyr, 2019.

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL**

## 13 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 14 DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgorffori'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ddiwygiedig.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol ym mis Mai, 2019 ac yn ystyried nad oedd nifer o'r risgiau'n berthnasol mwyach ac y gellid cyfuno rhai risgiau o gofio'r argymhellion a wnaed yn ystod Gwiriad Iechyd Rheolaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Zurich Municipal bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys gormod o risgiau. Canlyniad net yr adolygiad gan yr UDA oedd cau 19 o risgiau - roedd y rhain yn cynnwys risgiau lle gwnaed cynnydd sylweddol i liniaru'r risg, risgiau o natur debyg sydd wedi'u cyfuno, a risgiau nad ydynt bellach yn cael eu hystyried yn risg oherwydd bod amgylchiadau wedi newid. Mae manylion y risgiau unigol yr effeithir arnynt felly yn yr adroddiad. Mae'r UDA wedi nodi'r prif risgiau sy'n weddill (coch) i'r Cyngor, sef YM28, YM40 ac YM41. Yn ogystal, mae'r UDA wedi cytuno y bydd yn adolygu nifer fach o risgiau bob mis yn hytrach nag adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol gyfan bob chwarter.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a chododd y materion a ganlyn -

- Holodd y Pwyllgor sut y byddai'r UDA yn penderfynu pa risgiau y byddai'n eu hadolygu bob mis.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod risgiau wedi'u blaenoriaethu yn ôl eu sgôr risg gynhenid a gweddilliol gan roi blaenoriaeth i risgiau Cynhenid Coch / Gweddilliol Coch ac yna risgiau Coch Cynhenid / Ambr Gweddilliol; risgiau Coch Cynhenid / Melyn Gweddilliol a risgiau Coch Cynhenid / Gwyrdd Gweddilliol. Er bod camau lliniaru yn allweddol o ran lleihau risgiau gweddilliol, ystyrir bod angen monitro risgiau cynhenid Coch yn rheolaidd.

- Holodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn hapus i oddef 3 risg fawr sy'n parhau i fod yn Risgiau Coch fel rhai gweddilliol.

Eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yna adegau pan fydd risg yn aros yn goch ac nad yw'n anarferol i gofrestr risg gynnwys risgiau coch gweddilliol a coch chynhenid. Mae hyn yn adlewyrchu archwaeth risg y Cyngor fel y nodir yn y matrics risg ond nid yw'n golygu nad yw'r risgiau'n cael eu rheoli.

- Trafododd y Pwyllgor y defnydd o'r term “trychinebus” i ddisgrifio'r lefel uchaf o effaith pe bai risg yn cael ei gwireddu gan ofyn a oedd yn gorddweud yr effeithiau posib; holodd y Pwyllgor a fyddai'n synhwyrol canolbwyntio ar nodi mesurau i leihau unrhyw risgiau gweddilliol i lefel sy’n is na'r lefel drychinebus.

Esboniodd y Pennaeth Archwilio a Risg nad yw'r defnydd o'r term trychinebus yn anghyffredin; eglurodd, gyda'r holl risgiau, fod yr UDA wedi penderfynu bod faint o adnoddau y mae'n barod eu rhoi / gallu eu rhoi i reoli risgiau ar y lefel a adlewyrchir yn y matrics risg, sef y lefel y mae'n barod i'w goddef.

- Holodd y Pwyllgor pa bryd yr oedd y Cyngor yn bwriadu cyflwyno mesurau i liniaru Brexit.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod gan y Cyngor Swyddog Brexit dynodedig ac y cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ledled Gogledd Cymru i ystyried materion yn ymwneud â Brexit a sut mae’r rhain yn cael eu lliniaru ledled y rhanbarth yn awr ac i’r dyfodol. Mae'r Swyddog Brexit hefyd yn cynnal cofrestr risg Brexit ar wahân i lawr i lefel gwasanaethau unigol ac fe gyflwynir adroddiadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru ac i Lywodraeth y DU.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn sicrhau bod y risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor yn cael eu cydnabod a'u rheoli gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.**

**NI CHYNIGIWYD UNRHYW GAM GWEITHREDU PELLACH.**

**Cynghorydd Peter Rogers**
**Cadeirydd**